# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

### Cofnodion Cryno : HWLG(3)-19-10 : 24 Tachwedd 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_200000_24_11_2010&t=0

**Amser: 9.30 – 11.40**
**Lleol: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Darren Millar, Gorllewin Clwyd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones, Llanelli
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Andrew R.T. Davies, Canol De Cymru
Veronica German, Dwyrain De Cymru
Irene James, Islwyn

**Tystion**

Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
David Powell, Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Eitem 2)
Rob Hay, Pennaeth Cyllid Llywodraeth Leol 2, yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Eitem 2)
Owain Lloyd, Pennaeth Cyllid, Llywodraethu a Chynllunio Busnes, yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Eitem 2)
Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Eitem 3)
Paul Williams, Prif Weithredwr, GIG Cymru (Eitem 3)
Chris Hurst, Cyfarwyddwr Adnoddau (Eitem 3)

### Staff y Pwyllgor

Marc Wyn Jones, Clerc
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc
Rachel Dolman, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nid oedd dim ymddiheuriadau

### Eitem 2: Sesiwn graffu ar y Gyllideb Ddrafft: Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Papur:** HWLG(3)-19-10-p1

2.1 Bu'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ateb cwestiynau'r Pwyllgor am y gyllideb ddrafft.

**Camau i'w cymryd**

Y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am wariant awdurdodau lleol ar amddifadedd.

Y Gweinidog i roi nodyn ynghylch a yw arian a roddwyd i awdurdodau lleol i ddarparu cyfleoedd chwarae i blant anabl wedi'i wario yn y maes hwn ac i holi a yw awdurdodau lleol wedi rhoi arian ychwanegol tuag at hyn.

Y Gweinidog i roi rhestr o unrhyw awdurdodau lleol nad ydynt yn llofnodi eu hymrwymiad i gwblhau cytundebau canlyniadau erbyn yr amser terfyn penodedig.

### Eitem 3: Sesiwn graffu ar y Gyllideb Ddrafft: Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Papurau:** HWLG(3)-19-10-papur 2 & HWLG(3)-19-10 Atodiad A

3.1 Bu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ateb cwestiynau'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft.

### Camau i'w cymryd

Y Gweinidog i roi proffil i’r Pwyllgor o wariant cyfalaf yn ardaloedd Llwynypia, Aberdâr, Aberpennar , Caerffili ac Ystrad Mynach am y 12 mis nesaf.

Y Gweinidog i roi gwybod i’r Pwyllgor am y penderfyniadau y bydd hi’n eu cymryd ynghylch materion cyfalaf, gwaith cynnal a chadw sy’n cronni ac ail-broffilio.

Y Gweinidog i ddarparu manylion i’r Pwyllgor ynghylch dyraniad y £7 miliwn ar gyfer hosbisau.

Y Gweinidog i ddarparu nodyn i’r Pwyllgor am sefyllfa’r Llywodraeth o ran amcangyfrif yr Athro Pennington bod angen £2.75 miliwn i weithredu’i argymhellion.

Y Gweinidog i ddarparu nodyn i’r Pwyllgor ynghylch y math o gostau cyffredinol yr edrychir arnynt fel rhan o’r arbedion yng nghyllideb hyfforddi gweithlu’r GIG, a’r modd y mae cynllunio’r gweithlu’n llywio penderfyniadau cyllidebol am ddarparu hyfforddiant.

Y Gweinidog i ddarparu nodyn i’r Pwyllgor am ariannu Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), gan roi sylw penodol i gyflawni argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar y pwnc a darpariaeth canolfannau cysylltu.

### 4: Papurau a nodwyd

4.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

4.2 HWLG(3)-18-10-Cofnodion y cyfarfod diwethaf.